

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS  
FAWRTH 11EG O ORFFENNAF 2017 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 P.M.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Ian Hession (Cadeirydd), Mike Denman, Arwel Jones, Siân Davies, Brynle Lloyd, Clwyd Thomas, Wyn Wilkinson, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Iona Jones a Dewi Roberts.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 9fed o Fai 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Dim materion yn codi.

4. CYLLID.

Datganiad Banc - £6,673.00.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio gwaith i goed o fewn Grŵp G1 Gorchymyn Diogelu Coed 1991 yn 8 Ffordd Dinbych, Rhewl.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi estyniad i'r annedd (cais Adeilad Rhestredig) yn y Lodge, Rhewl.
2. Adeiladu storfa gardd ar wahân, gweithdy a storfa ym Mhlas Isa', Rhewl.
3. Mynediad fferm newydd yn Bod Ynys, Rhewl.

C. Nis oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi estyniad i'r annedd yn Cilan, Rhewl (Derbyniwyd datgan diddordeb i'r cais cynllunio gan y Cyngorydd Ian Hession ac nid chymerodd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais).
2. Codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio peiriannau a phorthiant a gwaith cysylltiedig yn Hafod Ynys, Rhewl.
3. Newid defnydd ystafell gemau/llofft gwadd i lety gwyliau hunanarlwyo yn Cysgod-y-Coed, Llanrhaeadr.
4. Torri 4 coeden (3 Castanwydden ac 1 Onnen) sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed yn 4 Ffordd Dinbych, Rhewl.

6. GOHEBIAETH.

A. Cynhelir Cyfarfod Clwstwr Blynnyddol rhwng Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a Chynghorau Dinas, Tref a Chymunedol ar nos Iau 20fed o Orffennaf 2017 yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 6.00 o'r gloch.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

A. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, ei fod yn trafod perchnogaeth llochesi fysiau yn Rhewl gyda'r Cyngor Sir gan maent angen gofal a chadw.

B. Derbyniwyd adroddiad ynglŷn ar broblem mae'r tenant rhif 5 Dolydd yn rhoi i denantiaid eraill Stad Dolydd yn Rhewl. Mae Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych wedi mynd at y gyfraith i gael ymadael o'r tenant.

C. Mi fydd Ffordd yr Orsaf yn Rhewl heibio Bodhyfryd yn cael wyneb newydd yn y flwyddyn ariannol bresennol.

D. Penderfynwyd gofyn am wyneb newydd o Bant Glas Uchaf i Fachymbyd Isaf yn y flwyddyn ariannol nesaf.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 12fed o Fedi 2017 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.